



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Sut Le Oedd Yno?



Roderick Hunt
Alex Brychta



Roedd y plant yn gyffrous. Roedden nhw'n mynd i chwarae rhan mewn drama. Roedd yn sôn am hanes eu tref. Roedd y ddrama i'w chynnal yn y parc, ac roedd yn rhaid i'r plant ymarfer eu golygfa.

“Gobeithio na fyddwn ni'n anghofio beth i'w wneud,” meddai Dids.



Roedd Mam-gu wedi dod i wyllo'r ymarfer.

“Bobol bach!” meddai. “Fedra i ddim credu hyn! Mae Cad yn gwisgo ffrog!”

“Am ein bod ni'n blant o'r Ail Ryfel Byd,” meddai Cad. “Doedd merched ddim yn gwisgo trowsus y pryd hynny.”



“Disgynnodd bomiau ar ein tref ni yn ystod y rhyfel,” meddai Dids. “Y Blitz oedd yr enw ar y bomio.”
Roedd Mam-gu yn medru cofio.

“Dim ond merch oeddwn i,” meddai, “ond rwy'n cofio'r bomio yn dda.”

“Oeddech chi'n gwisgo dillad ofnadwy fel y rhain?” meddai Cad.



“Mae’n rhaid inni gario’r blychau hyn,” meddai Wilma. “Ond maen nhw’n wag.”

“Doedden nhw ddim yn wag adeg y rhyfel,” meddai Mam-gu. “Roedd mygydau nwy ynddyn nhw. Roedd yn rhaid inni fynd â nhw i’r ysgol bob dydd.”

“Mygydau nwy?” ebychodd Wilff. “Ffantastig!”



Bu’r plant yn ymarfer eu rhannau. Yn y ddrama, cawson nhw eu hanfon i ffwrdd i fyw yn y wlad. Doedd hi ddim yn ddiogel aros yn y dref oherwydd y bomio.

“Rhaid inni esgus ein bod yn drist,” meddai Wilma.




Ceisiodd Dids dynnu wyneb trist.

“Rwy’n mynd i esgus crio,” meddai Wilff. Gwnaeth sŵn mawr wrth chwythu ei drwyn.

“Rho’r gorau iddi,” meddai Cad. “Rwyt ti’n gwneud imi chwerthin.” Dechreuodd y lleill chwerthin hefyd.

“Ddylen ni ddim chwerthin,” meddai Wilma.



Siaradodd Mam-gu â’r plant.

“Roedd y rhyfel yn amser ofnadwy i bawb,” meddai.
“Doedd e ddim yn ddoniol.”

“Mae’n ddrwg gyda ni, Mam-gu,” meddai Dids.
“Ond *roedd* hi’n bell iawn yn ôl.”



Ar ôl yr ymarfer, aeth Wilff a Wilma adref gyda Cad a Dids. Roedd Dids yn meddwl am y rhyfel.

“Rhaid ei bod yn amser anodd i blant y pryd hynny,” meddai.

“Mae’n anodd dychmygu sut beth oedd e,” meddai Wilff.



“Fedraf fi ddim aros i dynnu’r dillad hyn,” meddai Cad. “Rwy’n casáu gwisgo’r ffrog hon.”

Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Aeth yr hud â’r plant i ffwrdd ar antur arall. Aeth â nhw yn ôl i stryd yn Llundain.



“Rydyn ni wedi dod yn ôl i’r rhyfel,” ebychodd Dids.
“Mae hyn yn edrych fel golygfa yn ein drama.”
Gwelon nhw fachgen bach ar ei ben ei hun.
“Roeddwn i gyda fy ysgol,” meddai’r bachgen, “ond
es i ar goll. Gaf fi ddod gyda chi?”



Yn sydyn daeth sŵn wylofain hir.
“Rhybudd am gorch awyr oedd hynny,” meddai
Wilma. “Mae’n arwydd ein bod ar fin cael ein bomio.”
Dechreuodd pobl redeg. Gwaeddodd dyn arnyn nhw.
“Heil!” bloeddiodd. “Ewch i’r lloches!”



Aeth pawb i mewn i'r lloches. Uwchben y lloches, roedd bomiau yn glanio. Roedd popeth yn symud ac yn siglo.


“Mae ofn arna i,” meddai'r bachgen bach.

“A ninnau,” meddai Wilma.

“Gobeithio ein bod yn ddiogel lawr fan hyn,” meddai Cad.

Aeth y sŵn yn ei flaen am tuag ugain munud. Yna stopiodd. Roedd popeth yn dawel am gyfnod bach. Yna dechreuodd yr wylofain uchel. Roedd y cyrch awyr ar ben.

“Roedd hynny yn creu arswyd mawr,” meddai Wilff.



Daeth y plant allan o'r lloches. Fedren nhw ddim credu eu llygaid. Roedd y stryd wedi cael ei bomio. Roedd mwg a llwch ymhob man. Rhoddodd Wilma ei braich am y bachgen bach.

Roedd un adeilad wedi mynd. Dim ond pentwr o frics oedd ar ôl. Roedd adeilad arall ar dân. Roedd dynion tân yn dechrau diffodd y tân.

“Mae hyn yn ofnadwy,” meddai Wilff. “Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai fel hyn.”



Rhedodd gwraig i fyny at y plant. Daliodd law y bachgen bach.

“O, rwy mor falch fy mod wedi dod o hyd iti,” meddai. Edrychodd ar y lleill.

“Rhaid eich bod chi ar goll, hefyd,” meddai. “Dewch o’na! Bydd y trên yn gadael cyn hir.”



Roedd yr orsaf yn llawn plant. Roedd mygydau nwy ganddyn nhw i gyd ac roedden nhw’n edrych yn ofidus.

“Rydyn ni’n cael ein hanfon i ffwrdd,” meddai’r bachgen bach. “Oherwydd y bomio. Mae’n rhy beryglus i fyw fan hyn.”



Rhoddodd gwraig fag papur llwyd i bawb. Edrychodd Wilma yn ei hun hi.

“Hen frechdan sych ac afal ydyn nhw,” meddai, “ond does dim losin na bariau o siocled.”

“Wrth gwrs nad oes,” meddai’r wraig. “Beth oeddech chi’n ei ddisgwyl?”



Chwythodd dyn chwibanogl.

“Mygydau nwy amdanoch,” meddai. “A pheidiwch â phoeni, does dim nwy. Dim ond ymarfer yw e.”

“Does dim mygydau nwy gennym ni,” sibrydodd Dids. “Dim ond blychau gwag sydd gyda ni.”



Agorodd Wilff ei flwch. Y tu mewn roedd mwgwd nwy. Roedd gan bawb fgygdau nwy yn eu blychau. “Fedra i ddim credu hyn!” ebychodd. “Brysiwch!” meddai’r dyn yn flin. “Rhaid ichi eu gwisgo yn gyflym.”



Roedd Cad yn casáu gwisgo’r mwgwd nwy. Roedd yn teimlo’n dynn ac anghysurus. Roedd yno arogl rhyfedd ac roedd yn teimlo’n boeth. Pan oedd hi’n siarad, roedd sŵn rhyfedd ar ei llais ac roedd y mwgwd nwy yn stemio. Fedrai hi ddim aros i’w dynnu.



“Ych!” meddai Cad. “Roedd hynny’n ofnadwy. Roedd hi mor anodd anadlu yn y mwgwd nwy yna.” Chwythodd y dyn ei chwibanogI eto. Roedd yn amser mynd ar y trê. Roedd yn rhaid i’r plant i gyd sefyll mewn llinell. Dechreuodd y bachgen bach lefain.



“Dydw i ddim eisiau mynd,” snwffiodd y bachgen. “Dydw i ddim yn gwybod i ble rydyn ni’n mynd.” “Ond dyw hi ddim yn ddiogel aros,” meddai Dids. “Mae’n rhaid i Mam aros,” meddai’r bachgen. Rhoddodd Wilma becyn o hancesi papur i’r bachgen. “Dydw i erioed wedi gweld hancesi papur o’r blaen,” meddai’r bachgen.



O'r diwedd daeth y trên i mewn.
“Injan stêm yw hi,” meddai Wilff.

Pwffiodd y trên fwg allan a gwnaeth sŵn cloncian.
Wrth iddo stopio, roedd sŵn hisian uchel. Llenwodd mwg
a stêm yr awyr.

Dechreuodd oedolyn alw enwau'r plant. Yna
dywedwyd wrthyn nhw i fynd ar y trên.

“Dydw i ddim yn credu y bydd ein henwau ni yn cael
eu galw,” meddai Wilma. “Dydyn nhw ddim yn gwybod
pwy ydym ni.”



Roedd Wilma yn iawn. Daeth dyn drosodd atyn nhw.

“Pam nad ydych chi ar y trê?” gofynnodd.

Edrychodd y wraig ar ei rhestr.

“Ddylai neb fod ar ôl,” meddai. “Wn i ddim pwy yw’r plant hyn.”

“Fedrwn ni ddim eu gadael ar ôl,” meddai’r dyn.

“Gallwn ddysgu pwy ydyn nhw yn nes ymlaen. Ond bydd yn rhaid inni eu gwahanu nhw.”

“Dydyn ni ddim eisiau cael ein gwahanu,” meddai Cad. “Rydyn ni am aros gyda’n gilydd.”

“Mae’n ddrwg ’da fi,” meddai’r dyn. “Dydw i ddim yn credu y medrwc’h chi.”



“Fedrwn ni ddim cadw plant gyda’i gilydd drwy’r amser,” meddai’r wraig. “Dim hyd yn oed brodyr a chwiorydd.”

“Mae hynny’n ofnadwy,” meddai Dids.

Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yr antur ar ben.



“Doeddwn i ddim yn hoffi’r antur yna,” meddai Dids. “Roeddwn i mor ofnus yn y cyrch awyr.”

“Roeddwn i’n flin am y plant,” meddai Cad.

“Dychmygwch orfod gadael cartref a mynd i fyw gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod.”

“Druan o’r bachgen bach yna!” meddai Wilma.



Gofynnodd Dids i Mam-gu sôn wrthyn nhw am y rhyfel.

“Welais i ddim banana,” meddai Mam-gu. “Doedd dim llawer o fwyd. Doedden ni ddim yn cael llawer o losin a siocled. Doedd gennym ni ddim sebon neis a siampŵ. Dim ond unwaith yr wythnos roedden ni’n cael bath.”



Roedd yn noson y ddrama. Wnaeth Cad, Dids, Wilff a Wilma ddim chwerthin pan chwaraeon nhw eu rhannau. Roedden nhw’n cofio eu hantur hud. Roedden nhw’n meddwl am y plant yn disgwyl i’r trên ddod i mewn.



Roedd Mam-gu wrth ei bodd gyda nhw.

“Roeddech chi’n dda iawn,” meddai hi.

Dywedodd Cad gyfrinach wrth Mam-gu.

“Dangosodd yr allwedd hud inni mor galed oedd hi yn y rhyfel,” meddai. “Rwy’n falch mai dim ond actio roedden ni.”



Sut Le Oedd Yno?



Mae'r plant mewn drama am yr Ail Ryfel Byd. Maen nhw'n ei chael yn anodd bod o ddifrif. Yna mae'r allwedd hud yn mynd â nhw yn ôl mewn amser.



Cam 8 Rhagor o Storiâu A
Trefn ddarllen a argymhellir:

Arian Poced
Yr Ysbryd Drwg
Achubwch Mwlsyn!

Sut Le Oedd Yno?
Llifogydd!
Antur yn yr Aifft

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

ISBN 0-86174-848-4



9 780861 743488 >